**Swydd Wag Ceidwad**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl Post** | Ceidwad | | |
| **Lleoliad** | PentrePeryglon, Talacre, Sir y Fflint | **Cyflog** | £14.73 yr awr ynghyd â thâl gwyliau |
| **Telerau:** | Sesiwn – amser tymor yn unig | **Oriau** | I'w gadarnhau |

## Am BentrePeryglon:

Mae PentrePeryglon yn darparu profiad sgiliau bywyd cynhwysol a rhyngweithiol sy'n trochi plant mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn mewn ffordd hwyliog a chreadigol. Mae hyn yn rhoi cyfle i blant ddatblygu sgiliau a fydd yn eu cefnogi i wneud dewisiadau cadarnhaol a rheoli'r senarios hyn yn hyderus yn y dyfodol.

## Sut fydd y rôl hon yn effeithio ar PentrePeryglon?

Mae'r Ceidwad yn chwarae rhan annatod o fewn y tîm, gan ddarparu teithiau rhyngweithiol o amgylch y ganolfan addysg ddiogelwch, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelwch ymhlith plant ac aelodau eraill sy'n agored i niwed o fewn y gymuned. Gall y gweithgareddau ym MhentrePeryglon ehangu wrth i'r ganolfan ddatblygu.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud ar gyfer PentrePeryglon?

1. Cyflwyno negeseuon diogelwch allweddol y cytunwyd arnynt fel rhan o daith wedi'i sgriptio gan BentrePeryglon.
2. Estyn croeso cynnes i ymwelwyr i'r ganolfan.
3. Arwain cwis o flaen ac ar ôl y daith o gwmpas y ganolfan, gyda'r plant yn defnyddio dyfeisiau pleidleisio.
4. Sicrhau iechyd a diogelwch pob ymwelydd yn ystod eu hymweliad i ganolfan PentrePeryglon.
5. Hyrwyddo a chydymffurfio â pholisïau PentrePeryglon ar gyfleoedd cyfartal ac iechyd a diogelwch, wrth ddarparu gwasanaethau a thrin pobl eraill.

Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn restr gynhwysfawr o ddyletswyddau. Mae'r Elusen yn cadw'r hawl, ar ôl ymgynghori priodol â chi, i amrywio eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldeb o fewn paramedrau eich gradd a'ch cymhwysedd galwedigaethol i ymateb i newidiadau yn anghenion yr Elusen.

## Rydym yn chwilio am unigolion sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad hanfodol hyn:

| Sgiliau a gwybodaeth: | **Pam mae angen hyn arnom?** |
|---|---|
| Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno llafar da. | Chi fydd llais PentrePeryglon, felly mae'n bwysig bod negeseuon pwysig achub bywyd yn cael eu cyflwyno'n gywir ac yn effeithiol |
| Y gallu i weithio'n hyblyg ac yn gydweithredol | Weithiau mae angen bod yn hyblyg yn ystod cyfnodau gwaith oherwydd cyfyngiadau amser/anghenion grwpiau |
| Sgiliau Cymraeg | Mae PentrePeryglon wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gwasanaeth dwyieithog. |

| Profiad | Pam mae angen hyn? |
|---|---|
| Hunan-gymhelliant gyda phrofiad amlwg o weithio'n llwyddiannus ar eich liwt eich hun, tra hefyd yn gallu gweithio fel rhan annatod o dîm PentrePeryglon. | Rydym yn dîm cydweithredol bach sy'n gweithio tuag at nod cyffredin i gyflawni ein gwerthoedd. |
| Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc | Bydd y rhan fwyaf o'ch amser yn cael ei dreulio gyda phlant hyd at 11 oed, felly mae angen profiad o hyn yn hanfodol |

## Byddem hefyd yn hoffi pe bai gennych un neu fwy o'r sgiliau a'r profiad dymunol hyn:

| Sgiliau a gwybodaeth: | Pam mae angen hyn? |
|---|---|
| Dealltwriaeth o sgiliau bywyd cyffredinol | Byddai'n ddefnyddiol cael dealltwriaeth o'r materion sy'n berthnasol i'r gwaith yr ydym yn ymgymryd ag ef er mwyn ei gyflwyno. |

## Amodau gwaith:

Mae rhan fwyaf o’r amser yn cael ei dreulio o fewn i adeilad PentrePeryglon gyda sesiwn byr tu allan hyd at 10 munud lle byddwch yn darparu negeseuon diogelwch ar y ffyrdd yn ein senario ffyrdd , fodd bynnag , rydym yn darparu gwisg unffurf gyda siacedi pwrpasol ac mae lloches o dan canopi os fydd tywydd garw. Mae ychydig grisiau i fyny at y ddarlithfa ac hefyd i fyny at y senario cefn gwlad, ond mae lifftiau ar gael os oes angen. Bydd gofyn i chi wisgo offer clust a walkie talkie i wrando ar amseriadau neu os oes angen cymorth arnoch chi neu ar y plant. Ein nod yw i un athro neu riant fod gyda phob grŵp bob diwrnod.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i chi:

Byddwn yn darparu hyfforddiant ar sgript, cwis PentrePeryglon a sut i ddefnyddio'r offer arddangos. Yn ystod hyfforddiant, gallwch fynd gydag aelod arall o'r tîm i ‘gysgodi’ ac yna cael cefnogaeth nes eich bod yn teimlo'n hyderus i gyflwyno'r sesiynau. Yn ogystal â chyfrannu at sgiliau diogelwch a bywyd i filoedd o blant, byddwch hefyd yn rhan o dîm bach cyfeillgar ac yn derbyn y buddion hyn:

Talu am gyfleoedd hyfforddi a datblygu drwy drefniant.
Opsiwn i ymuno â'n cynllun Pensiwn

## Sut i wneud cais:

I wneud cais, anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol yn manylu ar pam rydych yn meddwl eich bod yn addas ar gyfer y rôl, at gwybodaeth@pentreperyglon.org.uk. I gael rhagor o wybodaeth am BentrePeryglon, ewch i'n gwefan yn www.pentreperyglon.org.uk.